# Cofnodion – Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Ystafell Gynhadledd 4B – Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 20 Ionawr 2026

Amser: 08.58 – 09.14

# Preifat, Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Paul Davies AS<br>Heledd Fychan AS<br>Jane Hutt AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Steffan Lewis (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Lisa Griffiths, Clerc Gweithdrefnau<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Julian Luke, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Marc Wyn Jones, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

Dydd Mawrth

Nododd y Pwyllgor Busnes y newidiadau a ganlyn:

- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip: Gwella mynediad at gymorth ariannol i bobl ledled Cymru (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru: ~~Teithio i Bawb~~ Trafnidiaeth i Bawb (30 munud)
- ~~Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes) (30 munud)~~ – *Gohiriwyd tan 24 Chwefror*

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.10pm.

Dydd Mercher

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.15pm.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 27 Ionawr 2026**

- ~~Dadl: Setliad yr Heddlu 2026-27 (30 munud)~~ – *gohiriwyd*
- ~~Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes) (60 munud)~~ – g*ohiriwyd tan 24 Chwefror*

**Dydd Mawrth 3 Chwefror 2026**

- Datganiad: Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026 (5 munud)
- Cynnig i amrywio trefn ystyried gwelliannau Cyfnod 3 Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) (5 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 4 Chwefror 2026**

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer: Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru) (30 munud)

### 3.4 Dadl Aelodau: Dewis Cynnig ar gyfer Dadl

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes y cynigion posibl i’w trafod ar 28 Ionawr 2026 a chytunodd i amserlennu’r ddadl Aelod ganlynol a gyflwynwyd gan Cefin Campbell AS:

**NNDM9115**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi darpariaethau Cyfraith Helen, neu Ddeddf Carcharorion (Datgelu Gwybodaeth am Ddioddefwyr) 2020 yn ffurfiol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r bwrdd parôl ystyried a yw troseddwyr wedi datgelu lleoliad gweddillion dioddefwr neu wedi nodi dioddefwyr oedd yn blant wrth wneud penderfyniadau parôl.

2. Yn cydnabod bod y Ddeddf wedi'i chyflwyno yn dilyn achos Helen McCourt, nad yw ei llofrudd erioed wedi datgelu lleoliad ei chorff, a bod peidio â datgelu hynny yn parhau i achosi trallod sylweddol a pharhaus i deuluoedd dioddefwyr.

3. Yn nodi galwadau am gyflwyno Deddf Helen Rhan 2: Atal Halogi, sy'n ceisio diwygio deddfau claddu a dedfrydu, gan gynnwys creu trosedd newydd o halogi corff.

4. Yn nodi ymhellach bod darpariaethau tebyg wedi'u cyflwyno yng Ngogledd Iwerddon drwy Gyfraith Charlotte, gan gynnwys gwneud cuddio olion dioddefwr yn ffactor gwaethygol statudol wrth ddedfrydu; darparu cymhellion ar gyfer cydweithredu wrth ddod o hyd i weddillion, a gosod dyletswydd ar awdurdodau parôl i ystyried achosion o beidio â datgelu.

5. Yn cydnabod bod gweithredu'r mesurau hyn yng Ngogledd Iwerddon yn dangos bod diwygiadau o'r fath yn gyraeddadwy mewn mannau eraill yn y DU.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi ystyried diwygiadau deddfwriaethol cyfatebol, mewn cydweithrediad â Llywodraeth y DU, er mwyn cryfhau cyfiawnder a darparu mwy o urddas a diweddglo i ddioddefwyr a'u teuluoedd.

# 4 Deddfwriaeth

## 4.1 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Trafododd y Pwyllgor Busnes ddiweddariad gan y Trefnydd a chytunodd:

- i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd ar gyfer y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl tan 23 Chwefror 2026; ac
- i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 4) ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad cau o 3 Chwefror 2026 i gyflwyno adroddiad.

Nododd Heledd Fychan fod Aelodau o grŵp Plaid Cymru wedi derbyn gohebiaeth sylweddol mewn perthynas â'r Bil Lles Plant ac Ysgolion, a holodd a ddylid ymestyn amseriad y ddadl ar 3 Chwefror 2026 y tu hwnt i 15 munud.

# 5 Gwaith Gweithdrefnol

## 5.1 Datgan buddiannau

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes bapur yn cynnwys dadansoddiad o argymhellion a wnaed iddo gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn ei adroddiad ar ei Ymchwiliad i Gofrestru a Datgan Buddiannau: Datgan buddiannau.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i drafod yr argymhellion gyda'u grwpiau gwleidyddol a'u hystyried ymhellach yng nghyfarfod y Pwyllgor Busnes ar 29 Ionawr.

Mewn perthynas ag argymhelliad 2 o'r adroddiad hwnnw, gofynnodd y Pwyllgor Busnes am ragor o wybodaeth am oblygiadau'r hyn a argymhellir ar gyfer cynigion sy'n cael eu cyflwyno gan Reolwyr Busnes ar ran eu grŵp gwleidyddol. Nododd y Trefnydd fod arferion Aelodau wrth ddatgan buddiannau ar lafar yn ystod trafodion yn amrywio o un i'r llall ac awgrymodd y dylid egluro'r gofyniad yn y canllawiau.